Medi 2022

**Noson i gyflwyno gwybodaeth am geisiadau prifysgol a'r broses UCAS**

Annwyl fyfyriwr/ rhiant/ gwarcheidwad,

**Cynhelir noson i rieni Blwyddyn 13 er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar y broses UCAS, cyllid myfyrwyr a materion perthnasol eraill, ar nos Fercher, Medi'r 21ain am 6:00 o'r gloch yn y Neuadd Fawr.** Bydd cynrychiolydd o Brifysgol Aberystwyth yn bresennol er mwyn rhannu gwybodaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau perthnasol. Yn ystod y noson byddwn hefyd yn medru trafod nifer o faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn bwysig hon, er enghraifft:

- Arholiadau ail-sefyll,
- Systemau monitro cynnydd Blwyddyn 13,
- Dyddiadau mewnol allweddol ar gyfer cyflwyno ceisiadau,
- Ceisiadau ar gyfer cyrsiau meddygol,
- Ceisiadau ar gyfer colegau Rhydygrawnt,
- Pwysigrwydd gwneud y dewisiadau iawn,
- Pwysigrwydd y datganiad personol / ymchwilio i brentisiaethau
- Graddau darogan,
- Ymweliadau â cholegau,
- Y broses UCAS ei hun,
- Cyllid a grantiau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous, a'n bwriad yw gweithio'n agos gyda'r myfyrwyr a'u teuluoedd er mwyn sicrhau'r cyfleon gorau ar gyfer myfyrwyr Bryn Tawe.

Gobeithiwn yn fawr iawn y byddwch yn medru mynychu'r noson.

Yn gywir,

Mr Ben Davies
(Pennaeth y Chweched).

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales